

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Medi 8 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Medi 20, yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 13: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Alun Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Medi 8: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 13: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a bydd hon yn oedfa Gymuned. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Medi 20

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 13: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 13: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 13: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am yn yr oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Medi 7: Ymddiriedolwyr Efe yn cyfarfod yng nghapel Caeathro am 7.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Medi 11: Cynhelir y Cyfarfod Gwedd yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Medi 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 20

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Medi 27

10.00 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 648: Dydd Sul, 06 Medi, 2015

Pobl

I lawer o bobl, term dieithr iawn yw 'cyfryngau cymdeithasol' a byd dieithr yw *Twitter* a *Facebook*. Ond trwy'r cyfryngau hyn, ar gyfrifiadur a ffôn a sawl dyfais electroneg arall – mae pobl yn cysylltu â'i gilydd ac yn cyfryngu pob math o wybodaeth i gyfeillion a theulu, i gydnabod a dieithriad, i bobl drws nesaf a phobl ym mhellafoedd byd. Yn aml iawn, gwybodaeth gwbl ddi-fudd yw honno. Ydych chi wir eisiau gwybod be gafodd Hafwen i frecwast neu pa liw sanau mae Huwycyn yn eu gwisgo yn y gwaith heddiw?

Ond mae gwedd arall i bethau gan fod gwybodaeth o wir bwys yn cael ei rhannu ar brydiau, a phobl yn dweud eu dweud am bynciau a digwyddiadau o'r pwys pennaf. Ac ar brydiau, mae'r wybodaeth honno yn rhagori ar yr hyn a welwn ni ac a glywn ni yn y papurau newydd a'r bwletinau newyddion. Ers wythnosau, bu'r papurau a'r bwletinau yn sôn am 'argyfwng y mewnfudwyr'. Clywsom am y bobl ddrwg sy'n elwa ar y trueiniaid hyn trwy godi crochris i'w cario mewn cychod dros Fôr y Canoldir. Clywsom am gychod yn suddo a phobl yn bodd. Gwelsom y 'mudwyr' yng ngwersyll Calais yn aros eu cyfle i neidio ar lori neu dren er mwyn croesi i Brydain.

Rywsut, fe lwyddodd y cyfryngau Prydeinig i roi'r argraff bod yr holl 'fudwyr' a ddaeth o Affganistan a Syria a'r gwledydd eraill yn cyrraedd Calais ac yn benderfynol o ddod i Brydain yn

anghyfreithlon. Rhodet yr argraff mai'r 'broblem' oedd y ffaith fod y 'mudwyr' yn bygwth ein gwasanaeth iechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol ni ym Mhrydain. Clywyd mwy nag un gwleidydd yn dadlau y dylasai'r rhain fodloni ar y gwersylloedd pwrpasol a ddarparwyd ar eu cyfer yn Nhwrci a Gwlad yr Iorddonen a mannau eraill yn hytrach na chwilio am well byd ym Mhrydain.

Ond ers misoedd hefyd bu llawer yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at ddiodefaint echrydus y bobl a bortreadwyd fel problem fawr i ni yn y gwledydd hyn. Trueni pethau yw na chymerodd eraill, yn cynnwys Llywodraeth Prydain, lawer o sylw nes iddynt weld lluniau dirdynnol o gorff marw plentyn bach 3 oed ar draeth yn Nhwrci y dydd o'r blaen. Y lluniau hynny a ysgogodd beth newid meddwl a pharodwydd i ystyried croesawu rhywfaint rhagor o ffoaduriaid.

Cymwynas y bobl a fu'n galw ers misoedd arnom i agor ein llygaid i'r argyfwng hwn fu ein hatgoffa mai pobl o gig a gwaed yw'r ffoaduriaid hyn – nid problem na bygythiad na mudwyr nac ystadegau – ond dynion, merched, pobl ifanc a phlant cyffredin yn ffoi o'u gwledydd a'u cartrefi am nad oes dim arall y gallan nhw ei wneud. Wrth weddio drostynt, gweddiwn hefyd dros ymdrechion mudiadau Cristnogol fel Tearfund i estyn cymorth yn enw Iesu Grist. Darllenwch am ymateb Tearfund dros y dudalen.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan Mr John H Hughes a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Neiniolen gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Nant Peris gan y Gweinidog.

Bydd Miss Sioned Williams, Bethesda yn arwain yr oedfa yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at Mr Gareth Hughes a Mrs Nancy Hughes, Manod, Rachub a Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen sydd yn Ysbyty

Gwynedd. Cofion gorau hefyd at Miss Ciss Rowlands, Corlan y Bont, Deiniolen a fu am driniaeth i'w llygaid yn ystod yr wythnos.

Ymateb Tearfund

Felly, sut y mae Tearfund yn ymateb – yn Syria, yn y Dwyrain Canol ac yn awr yn Ewrop

Yn gyntaf ac yn bennaf, rydym yn dal i wneud llawer o waith yn y Dwyrain Canol i gefnogi ffoaduriaid sydd wedi ffoi o sefyllfa argyfyngus.

Dyma ddyfyniad o gyhoeddiad a wnaed yn ddiweddar:

'Yn Syria, mae gennym rwydweithiau o bartneriaid yn yr eglwysi, gweinidogion er enghraifft, yn dosbarthu bwyd a nwyddau fel blancedi, tanwydd a gwresogyddion. Gan nad yw llawer o fudiadau dyngarol yn gallu cyrraedd yr ardaloedd mwyaf peryglus, daw eglwysi yn ganolfannau cymorth. Mae llawer iawn o bobl yn dod i mewn i holi am Grist hefyd gan eu bod yn cael cariad a chymorth diamod gan Gristnogion.

Yng Ngwlad Iorrdonen, rydym yn gweithio trwy bartneriaid lleol sy'n cynnal gweithdai trawma i fenywod, gan eu helpu i ofalu amdanynt nhw'u hunain a'u teuluoedd. Cynhelir y sesiynau hyn mewn eglwysi, ac mae'n wych gweld menywod Moslemaidd yn dod i mewn ac yn cael croeso a gofal gan yr eglwys. Yn ogystal, mae'r partneriaid hyn yn cyflenwi pecynnau bwyd, pecynnau cegin a nwyddau gaeaf (blancedi, tanwydd, gwresogyddion, stôfs) i ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd. Rydym yn cefnogi dwy ysgol feithrin lle mae'r plant yn cael therapi trwy gyfrwng celf a drama. Yn ddiweddar, clywsom hanes bachgen pump oed oedd wedi rhoi'r gorau i siarad oherwydd trawma (mae hyn yn gyffredin iawn mysg y

plant). Bu'r athrawon yn rhoi llawer o sylw iddo ac fe ddechreuodd ddod adref a sôn am y pethau hwyliog y bu'n eu gwneud yn ystod y dydd. Ar y dechrau, roedd wedi mynd yn ôl i siarad fel babi ond, ar ôl blwyddyn, mae'n siaradus iawn ac yn siarad fel y dylai plentyn o'i oedran wneud.

Yn Libanus, mae dros chwarter y bobl yn ffoaduriaid o Syria. Mae'r wlad fechan hon yn gorlenwi ac yn cael trafferth i gynnal yr holl ffoaduriaid newydd sy'n cyrraedd. Ond, ddim ond ddeng mlynedd yn ôl, meddiannwyd Libanus gan Syria ac ymosododd y Syriaid ar lawer o bobl Libanus. Felly, er nad ydi'r rhan fwyaf o bobl Libanus yn trystio'r Syriaid, mae llawer o eglwysi'n gwneud y dewis anodd i faddau i'w hen elynion a'u croesawu. Trwy ein partneriaid rhyfeddol yn Libanus, gallwn ddsbarthu bwyd i deuluoedd o ffoaduriaid, a threfnu ysgol i'w plant, gan fod diffyg addysg i blant yn Syria yn achosi problemau enfawr.

Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli nad yw gweithio yn y Dwyrain Canol yn awr yn ddigon. Ers tuag wythnos, wrth i'r sefyllfa waethygu, rydym wedi cychwyn partneriaethau newydd gyda gwaith yn yr eglwysi yn Ewrop.

Gwneir yr holl gysylltiadau trwy Integral Alliance – grŵp o elusennau sy'n ymroi i drawsnewidiadau holistig (materol ac ysbrydol) – ac fe'u trefnir trwy eglwysi lleol – eglwysi sy'n darparu bwyd, cysgod, cymorth emosiynol ac ati.

Beth allwch chi, eich capel a'ch eglwys ei wneud?

Yn gyntaf ac yn bwysicaf, gallwch weddio – byddem wrth ein bodd pe gallech weddio dros y sefyllfa yr wythnos hon ac, yn enwedig dros ymateb Tearfund a'n partneriaid.

Cewch ddysgu mwy am yr apêl trwy fynd i wefan Tearfund (www.tearfund.org).

Ceir yno hefyd adnoddau arbennig ar gyfer yr eglwysi.

Beibl Canllaw

Cyhoeddwyd y *Beibl Canllaw* yn ystod mis Awst, ac mae'r copiau a archebwyd cyn y gwyliau wedi cyrraedd erbyn hyn.

Os cofiwch, roedd i'w gael am £20 yn lle'r pris arferol o £25.

Gobeithio bod y rhai sydd eisoes wedi eu cael eu copi wedi eu plesio.

Mae gen i ddau neu dri copi dros ben gan i mi archebu copiau ychwanegol. Os ydych eisiau un o'r rhain cysylltwch â mi. Cofiwch mai'r cyntaf i'r felin fydd hi i arbed £5. Ffoniwch 01286 872390, neu anfonwch e-bost at john.cilfynydd@btinternet.com.

Y Gymdeithas

Ym Mhwyllgor Cymdeithas Undebol Llanberis ym mis Gorffennaf diolchwyd i Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Anne Parry am eu gwaith fel Ysgrifennydd a Thrysorydd am flynyddoedd lawer.

Ers y cyfarfod, mae Mr Eifion Roberts wedi derbyn swydd y Trysorydd, ond ni lwyddwyd i benodi Ysgrifennydd. Gall hynny olygu y bydd llai o gyfarfodydd nag arfer eleni.

Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor newydd yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 13, yng nghwmni Annete Bryn Parri, Deiniolen.

Yn naturiol, byddwn yn falch o gael Ysgrifennydd ar gyfer y tymor nesaf. Rhowch wybod i'r Gweinidog os ydych yn fodlon gwneud y gwaith.